Ymgynghori ar Ddiweddaru Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Cymru – Rhagor o wybodaeth

Rydym wedi nodi un mater bach ychwanegol ynglŷn â Rheoliadau 2004 y byddem yn cynnig ei ddiwygio mewn rheoliadau newydd i'w disodli. O dan ddarpariaethau rheoliad 5 o Reoliadau 2004, mae personau a grybwyllir ym mharagraff 4 o Atodlen 2 (y rheini sydd o ran proffesiwn athrawon ysgol yn dod o dan Reoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007) ("Rheoliadau 2007") yn athrawon cymwysedig. Fodd bynnag, yn wahanol i lawer o'r categorïau eraill o bersonau a restrir yn Atodlen 2 sy'n athrawon cymwysedig, nid yw'n ofynnol i athrawon perthnasol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("EEA") na'r Swistir dderbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru na Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("CyngACC") i'r perwyl hwn.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd pam nad yw Rheoliadau 2004 yn cynnwys athrawon yr EEA / y Swistir fel hyn. Roedd ein rheoliadau cymwysterau blaenorol (Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999) a'r darpariaethau cyfatebol cyfredol yn Lloegr (Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003), ill dau, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hysbysiad ysgrifenedig o statws athro cymwysedig ("SAC") ar gyfer athrawon yn y categori hwn.

Mae CyngACC eisoes yn ymgymryd â'r gwaith o gydnabod SAC yng Nghymru ar gyfer athrawon yr EEA / y Swistir fel rhan o'i rôl fel yr 'awdurdod cymwys' o dan Reoliadau 2007. Mae CyngACC yn asesu ceisiadau ac, os caiff y meini prawf perthnasol eu bodloni, bydd yn cyhoeddi cyfeirnod athro i'r ymgeisydd ynghyd â thystysgrif SAC.

O ganlyniad, rydym yn cynnig darparu, mewn rheoliadau wedi'u diweddaru a fydd yn disodli Rheoliadau 2004, fod personau sydd o ran proffesiwn athrawon ysgol â hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig yn unol â Rhan 2 a Phenodau 1, 2 a 4 o Ran 3 o Reoliadau 2007 yn athrawon cymwysedig, a bod rhaid iddynt dderbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r CyngACC i'r perwyl hwn. Byddai hyn yn ychwanegol i'r materion a drafodir yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddedig.